# CYNGOR GWYNEDD

# GWASANAETH RHEOLI LLYGREDD A THRWYDDEDU

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014**

# AMODAU A CHANLLAWIAU TRWYDDEDU I FRIDWYR CŴN

# Cynnwys


**1. AMODAU CYFFREDINOL**
1.1 Arddangos Trwydded

**2. LLETY A'R AMGYLCHEDD**
2.1 Adeiladwaith
2.2 Maint y Gofodau
2.3 Deunydd gorwedd
2.4 Tymheredd a Gwresogi
2.5 Goleuo
2.6 Awyru
2.7 Glanweithdra
2.8 Difa Pla
2.9 Gwaredu Gwastraff
2.10 Esgor ar gŵn bach

**3. DIET A MAETHIAD**
3.1 Bwyd a Diod
3.2 Cyfleusterau Paratoi a Storio Bwyd

**4. YMDDYGIAD ARFEROL**
4.1 Ymarfer Corff
4.2 Goruchwylio
4.3 Cyfradd staff/nifer stoc
4.4 Gosodiad y cenel

**5. IECHYD A LLES**
5.1 Cofrestru gyda Milfeddyg
5.2 Meddyginiaethau
5.3 Afiechydon Heintus/Ymledol
5.4 Statws iechyd y cŵn
5.5 Bridio
5.6 Cyfleusterau Ynysu
5.7 Cit Cymorth Cyntaf
5.8 Diogelu rhag Tân
5.9 Diogelwch Offer Trydanol

**6. CADW COFNODION**
6.1 Adnabod Cŵn
6.2 Cŵn bach
6.3 Gwerthu Geist a Chŵn Magu
6.4 Cludo Cŵn

**7. DEDDF LLES ANIFEILIAID 2006**
7.1 Cyfleusteru i Gŵn Bach
7.2 Arddangos Patrymau Ymddygiad Arferol
7.3 Cymdeithasoli Cŵn Bach
7.4 Magu Cyfrifol
7.5 Strategaeth ymddeol i eist a chŵn magu

**8. CANLLAWIAU ERAILL**
8.1 Deddfwriaeth Gyfredol Berthnasol Arall

**MATERION ERAILL SY'N YMWNEUD Â RHEDEG SEFYDLIAD TRWYDDEDIG.**
A - Trefn Apelio
B - Canllaw Rhagofalon Tân
C - Iechyd a Diogelwch

**ATODLENNI YCHWANEGOL**
Atodlen 1 - Llyfr Log Gast Fagu
Atodlen 2 - Llyfr Log Ci Magu
Atodlen 3 - Cerdyn Adnabod Ci Bach

## 1. AMODAU CYFFREDINOL

| Amod y Drwydded | Canllaw |
|---|---|
| **1.1 Arddangos Trwydded**<br><br>**a.** Rhaid i gopi o'r drwydded a'i hamodau gael eu harddangos yn briodol i'r cyhoedd mewn lle amlwg yn y sefydliad trwyddedig. | |

## 2. LLETY A'R AMGYLCHEDD

*Rhaid cadw cŵn mewn llety sy'n briodol o ran adeiladwaith, maint y gofodau, deunydd gorwedd, cyfleusterau ymarfer, tymheredd a gwresogi, goleuo, awyru, glanweithdra, a chael gwared â gwastraff. Rhaid cael cyfleusterau esgor a chyfleusterau i gŵn bach.*

| Amod Trwydded | Canllaw |
|---|---|
| **2.1 Adeiladwaith**<br><br>**a.** Rhaid i'r holl arwynebau mewnol a ddefnyddir i adeiladu waliau, lloriau, parwydydd, drysau a fframiau drysau fod yn wydn, yn llyfn, yn anhydraidd, ac yn hawdd i'w glanhau.<br>**b.** Ni ddylai unrhyw beth ymestyn allan neu fod ag ymylon garw fel y gellid achosi anaf.<br>**c.** Ni ddylid defnyddio pren yn fewnol yn adeiladwaith cytiau cŵn newydd gan gael gwared arno yn raddol o'r cenelau presennol dros gyfnod penodol o amser.<br>**d.** Pan fyddant yn cael eu golchi (yn cynnwys lloriau'r holl gytiau cŵn, ardaloedd ymarfer, llwybrau a'r gegin), ni ddylai pyllau dŵr gronni a dylai'r arwynebau sychu'n rhwydd. | Dylai cŵn fedru rheoli eu golygfa hwy o gŵn mewn cenelau eraill. Gellid gwneud hyn drwy er enghraifft (1) mewn cenel agored cael ardal ble gall y ci symud iddo i osgoi cysylltiad gyda chŵn eraill a (2) mewn cenel ble mae cyfyngiadau gweledol drwy fod â rhan sydd wedi'i godi e.e. llwyfan, i alluogi cysylltiad gwledol.<br><br>Ni ystyrir fod pren yn ddeunydd addas na hylan i genelau modern a ble defnyddiwyd pren mewn cenelau sefydliedig mae angen ei newid gyda deunydd llyfn anhydraidd fel dur galfanedig. |

| | |
|---|---|
| **e.** Rhaid i'r draeniant fod yn addas ac yn ddigonol i hwyluso'r uchod.<br>**f.** Rhaid i barwydydd rhwng y mannau cysgu fod o wneuthuriad cadarn i roi preifatrwydd i gŵn unigol.<br>**g.** Rhaid i ddrysau cenel fod yn ddigon cryf i wrthsefyll ergydion a chrafu a rhaid bod modd eu cloi'n effeithiol.<br>**h.** Lle defnyddir bariau a fframiau metel, dylent fod o faint addas i atal cŵn rhag dianc neu gael eu dal.<br>**i.** Pan ddefnyddir ymyl fetel, ni ddylai hyn beri anaf posib i'r ci. | Dylai grŵp neu bâr o gŵn mewn cenelau fod â digon o fannau cuddio, llwyfannau, gwelyau, teganau ac ati i osgoi cystadleuaeth ac i ambell gi rhag cymryd drosodd.<br><br>Dylid dylunio cytiau cŵn ac adeiladau mewn ffordd sy'n lleihau sŵn. Dylid rhoi ystyriaeth ddigonol i sensitifrwydd uchel cŵn i sŵn amledd uchel ac ymgorffori hyn yn y dyluniad ble fo angen. Dylai dyluniad y cenel sicrhau fod gan bob ci fynediad parhaus i le cysurus, sych, heb ddrafft, sy'n lân a thawel er mwyn gorffwyso.<br><br>Dylai dyluniad ystyried safle daearyddol, e.e. gall fod yn anos gwresogi cytiau cŵn sy'n wynebu'r gogledd. Bydd gogwydd cywir i'r cytiau cŵn yn rhoi'r defnydd mwyaf o oleuni naturiol.<br><br>Dylai adeiladau, llwybrau, gerddi a mannau ymarfer gael eu cynnal yn dda a dylent fod mewn cyflwr da, glân a diogel.<br><br>Dylai lloriau cenelau a'r mannau ymarfer cysylltiedig ddarparu digon o afael i alluogi'r anifail i gerdded neu redeg heb lithro.<br><br>Dylai dyluniad unrhyw genel atal ci rhag dianc. |
| **2.2 Maint y Gofodau**<br><br>**a.** Y canlynol yw'r lleiafswm gofynion maint ar gyfer:<br><br>**Cŵn bychain** | <br><br>Mae mynediad rhydd i ymarfer yn golygu fod gan y cŵn fynediad anghyfyngedig i le ymarfer.<br><br>Mae mynediad cyfyngedig i ymarfer yn golygu fod gan y cŵn fynediad cyfyngedig i le ymarfer.<br><br>Dylai'r cwt ci fod yn ddigon mawr i alluogi i bob ci gerdded, troi o gwmpas ac ysgwyd ei gynffon heb daro ochrau'r cwt, i chwarae, sefyll ar ei goesau ôl a gorwedd heb gyffwrdd neb arall. Pan fo'r anifail/anifeiliaid yn y cwt ci dylai fod digon o le i'r drws agor yn llawn. |

| Nifer y cŵn | Mynediad rhydd i ymarfer | Mynediad cyfyngedig i ymarfer |
|---|---|---|
| 1 | 2.5 metr sgwâr | 4.5 metr sgwâr |
| 2 | 2.5 metr sgwâr | 4.5 metr sgwâr |
| 3 | 4.5 metr sgwâr | 6.5 metr sgwâr |
| 4 | 6.0 metr sgwâr | 8.5 metr sgwâr |

**Cŵn Canolig**

| Nifer y cŵn | Mynediad rhydd i ymarfer | Mynediad cyfyngedig i ymarfer |
|---|---|---|
| 1 | 2.5 metr sgwâr | 4.5 metr sgwâr |
| 2 | 4.5 metr sgwâr | 6.5 metr sgwâr |
| 3 | 6.0 metr sgwâr | 8.5 metr sgwâr |

**Cŵn mawr**

| Nifer y cŵn | Mynediad rhydd i ymarfer | Mynediad cyfyngedig i ymarfer |
|---|---|---|
| 1 | 4.5 metr sgwâr | 6.5 metr sgwâr |
| 2 | 6.0 metr sgwâr | 8.5 metr sgwâr |

Dylid darparu dwbl y lle yma i eist gyda thorllwyth o gŵn bach.

Ceir y diffiniadau a ddefnyddir am gŵn bychain, canolig a mawr ar wefan y Kennel Club. www.thekennelclub.org.uk

e.e. Bychain:- Pug, Bichon Frise
Canolig:- Spaniel, Corgi
Mawr:- German Shepherd, Doberman

**2.3 Deunydd gorwedd**

**a.** Rhaid darparu gwelyau a deunydd gorwedd sy'n addas i gadw'r cŵn yn gyfforddus.
**b.** Dylid medru glanhau a diheintio gwelyau a'r deunydd gorwedd yn rhwydd a dylid eu gosod i ffwrdd oddi wrth unrhyw ddrafftiau.
**c.** Rhaid i'r holl ddeunydd gorwedd a ddefnyddir fod yn lân, beidio ag achosi unrhyw lid a bod yn sych.
**d.** Rhaid i wely ci fod wedi'i adeiladu'n gadarn ac yn anhydraidd, ac o faint addas ar gyfer brîd y cŵn a gedwir.
**e.** Rhaid i bob ci gael mynediad i'w wely ei hun.

Diffinnir gwely ci fel: sylfaen gyda thair neu bedair wal o'i chwmpas (3D) gyda'r dewis o do neu beidio.

Enghreifftiau o ddeunydd gorwedd addas yw ffabrig neu ddefnydd cnu (y gellid ei olchi), papur wedi'i larpio a gwellt, glân ffres

D.S. Ni ystyrir fod matiau rwber ar ben eu hunain yn addas.

| | |
|---|---|
| **2.4 Tymheredd a Gwresogi**<br><br>**a.** Rhaid insiwleiddio'r cenelau i atal rhag tymheredd eithafol.<br>**b.** Rhaid i gyfleusterau gwresogi ac oeri fod ar gael yn y cwt gan eu defnyddio yn unol â gofynion y cŵn a'r cŵn bach unigol.<br>**c.** Rhaid i ran o’r ardal gysgu sicrhau bod y ci yn gallu mwynhau isafswm tymheredd o 10°C ac uchafswm tymheredd o 26°C.<br>**d.** Mewn cytiau cŵn wedi'u hynysu, rhaid sicrhau bod modd o gynnal y tymheredd ar lefel sy’n addas i gyflwr y ci ac yn ddibynnol ar gyngor milfeddyg.<br>Er hynny, ni ddylid gadael i’r tymheredd yn y cytiau ynysu godi uwchlaw 26°C na syrthio o dan 13°C.<br>**e.** Rhaid darparu thermomedr 'uchafswm - isafswm' ym mhob bloc o gytiau cŵn ac yn yr uned ynysu.<br>**f.** Dylai deiliaid trwyddedau sicrhau bod ffynonellau gwres yn ddiogel ac yn cydymffurfio â’r holl ofynion rheolaethol i'r cŵn a’r bobl sy’n gweithio yno. | Oherwydd mai rheolaeth gyfyngedig sydd gan gŵn bach dros eu tymheredd yn ystod eu deng niwrnod cyntaf o'u bywydau, dylid darparu gwres lleol ychwanegol yn y rhan esgor.<br>Dylid cofnodi a monitro tymheredd ar lefel y cŵn.<br><br>Dylai'r ffynhonnell gwres gynhesu ardal ddigon mawr i'r torllwyth i gyd.<br><br>Ni ellir rheoli'r tymheredd yn gaeth yn yr ardaloedd tu allan lle gall anifeiliaid ymarfer a chymysgu. Ni ddylid cyfyngu anifeiliaid i ardaloedd gyda amodau hinsawdd a all beri gofid iddynt.<br><br>Dylai'r deunyddiau sydd ar du allan y cytiau'r cŵn amddiffyn y cŵn yn ddigonol rhag amrywiadau tymheredd drwy gydol y flwyddyn.<br><br>Er mwyn cynnal tymheredd yn unol â'r gofynion, gall defnyddio ffynonellau gwresogi unigol fod yn addas i'r cŵn. Mewn rhai amgylchiadau, darperir gwres cefndirol ychwanegol.<br><br>Rhaid i'r dyfeisiadau a ddefnyddir i wresogi ac oeri fod yn ddiogel ac nad ydynt yn debygol o achosi perygl drwy losgi neu drydanu. Ni ddylid defnyddio offer gyda fflam agored a dylid dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.<br><br>Disgwylir y bydd deiliaid trwyddedau sy'n cadw cŵn ac yn magu cŵn bach yn eu cartrefi (bridwyr domestig) yn cydymffurfio gyda'r holl ofynion rheolaethol ar gyfer ffynonellau gwres ac offer. |

| | |
|---|---|
| **2.5 Goleuo**<br><br>**a.** Rhaid darparu golau i ardaloedd ymarfer a chysgu fel bod pob rhan yn hawdd i’w gweld. Dylai hwn fod yn olau naturiol ble bo’n ymarferol.<br>**b.** Rhaid darparu goleuadau ategol digonol drwy'r sefydliad.<br>**c.** Mae angen diffodd golau yn ystod y nos er mwyn caniatáu patrymau cysgu cywir.<br>**d.** Rhaid rhoi gorchudd plastig ar bob golau artiffisial i atal anafiadau posib i'r cŵn sy'n deillio o wydr wedi torri. | Mae lampau gwresogi'n cael eu gosod ar lefel isel ac ni ellir rhoi gorchudd plastig arnynt, ond dylai rhwyll fetel amddiffynol fod arnynt i atal cŵn rhag cyffwrdd y bylbiau poeth yn uniongyrchol.<br><br>Mae mwy o debygolrwydd y bydd lampiau gwresogi'n cael eu taro gan dorri'r bylbiau pan fyddant wedi'i gosod ar lefelau isel ond mae bylbiau ar y farchnad sy'n wydn a ddim yn torri. Dylid ceisio a defnyddio'r bylbiau hyn os yw hynny'n bosib. |
| **2.6 Awyru**<br><br>**a.** Rhaid darparu system awyru i bob ardal fewnol heb greu gormod o ddrafftiau yn yr ardal gysgu. Rhaid bod modd hefyd i reoli newidiadau mewn tymheredd. | Dylai'r system awyru yn y llety dan do i'r holl gŵn roi digonedd o awyr iach o safon addas a chadw lefelau arogleuon, nwyon niweidiol, llwch a ffynonellau heintus o unrhyw fath i lawr, a heb wasgaru, a sicrhau fod gwres a lleithder gormodol yn cael eu gwaredu.<br><br>Dylid dylunio'r system awyru fel ei bod yn osgoi drafftiau a sŵn niweidiol. |
| **2.7 Glanweithdra**<br><br>**a.** Dylid cadw pob cwt, coridor, mannau cyffredin, ceginau ac ati, yn lân, heb faw a llwch cronnus, fel y cedwir rheolaeth ar afiechydon a bod y cŵn yn gyfforddus.<br>**b.** Rhaid i bob cwt gael ei lanhau yn ddyddiol.<br>**c.** Rhaid clirio’r holl garthion a deunyddiau wedi'u baeddu o'r ardaloedd a ddefnyddir gan gŵn o leiaf unwaith y dydd, ac yn amlach os oes angen.<br>**d.** Dylid gweithredu amserlen lanhau a'i harddangos a bydd hon yn amlinellu'r gwaith glanhau a diheintio dyddiol, wythnosol a misol a bydd yn rhaid ymgorffori diheintydd addas sy'n effeithiol yn erbyn micro-organebau sy'n gyfrifol am afiechydon cŵn, yn y cynllun iechyd. | Ceir rhestr o ddiheintyddion yn:<br><br>**http://disinfectants.defra.gov.uk/** |

| | |
|---|---|
| **2.8 Difa Pla**<br><br>**a.** Rhaid cymryd camau i leihau’r risgiau a achosir gan gnofilod, pryfed a phla eraill yn y sefydliad bridio. Rhaid ymdrin â phlâu o’r fath heb oedi drwy ddefnyddio cynnyrch milfeddygol addas i gael gwared ar unrhyw bla. | Dylech bob amser ddilyn canllawiau'r gwneuthurwyr wrth ddefnyddio cynnyrch rheoli er mwyn lleihau'r perygl i'r cŵn. |
| **2.9 Gwaredu Gwastraff**<br><br>**a.** Dylai'r sefydliad fod wedi'i gysylltu â phrif system garthffosiaeth neu system leol gymeradwy i gael gwared â gwastraff.<br>**b.** Rhaid darparu cyfleusterau ar gyfer derbyn, storio a chael gwared â phob gwastraff.<br>**c.** Rhaid cymryd gofal arbennig i ddidoli gwastraff a gesglir o ganlyniad i driniaeth ac ymdrin â chŵn gyda afiechydon heintus.<br>**d.** Rhaid cytuno ar gyfleusterau i waredu gwastraff anifeiliaid gyda’r Awdurdod Trwyddedu. | Dylai'r trwyddedai wirio gyda Asiantaeth yr Amgylchedd beth yw'r canllawiau cyfredol ar y dulliau addas o gael gwared â'r gwastraff hwn. |
| **2.10 Cyfleusterau Esgor**<br><br>**a.** Rhaid darparu lle penodol neu gwt ci i bob gast cyn iddi esgor gyda blwch/gwely esgor addas.<br>**b.** Rhaid i'r cyfleusterau gwresogi fod yn addas, yn ddiogel a saff gan ddarparu ystod o dymheredd, sy'n addas i'r cŵn bach a'r ast.<br>**c.** Rhaid darparu man addas ble gall yr ast orffwyso i ffwrdd oddi wrth ei chŵn bach. | Yn gyffredinol, dylid rhoi geist gyda chŵn eraill mewn pâr neu grŵp, ond dylent fod mewn cwt ar eu pennau eu hunain am ychydig o ddyddiau cyn iddynt esgor. Er hynny, dylent barhau i weld, clywed ac arogli geist eraill cyfarwydd a bod mewn cysylltiad dyddiol gyda phobl.<br><br>Dylai'r ardal esgor/cwt ci fod yn ddigonol i'r uchafswm nifer o gŵn bach gan ystyried maint y brid a maint y torllwyth. I osgoi gwasgu cŵn bach gallai bariau atal gwasgu fod yn ddefnyddiol. Tua thri diwrnod ar ôl iddynt esgor dylai'r geist gael cyfnodau byr o ymarfer i ffwrdd o'u torllwyth. |

| | |
|---|---|
| | Dylid archwilio geist sy'n agos at esgor yn rheolaidd<br>Pan fyddant yn esgor dylid cadw llygad ar y geist ac os oes unrhyw arwyddion fod trafferthion yna dylid cysylltu â milfeddyg fel mater o frys. Dylai manylion cyswllt i gael cymorth milfeddyg fod ar gael yn hwylus. |

## 3. <u>DIET A MAETHIAD</u>

*Rhaid i'r cŵn gael cyflenwad addas a digonol o fwyd a diod bob amser ar gyfer y brid, oed a'r gofynion maeth amrywiol. Rhaid cael cyfleusterau paratoi bwyd digonol.*

| **Amod y Drwydded** | **Canllaw** |
|---|---|
| **3.1 Bwyd a Diod**<br><br>**a.** Rhaid rhoi diet i bob ci sy'n addas i'r math, oed a brîd o gi.<br>**b.** Rhaid i ddŵr glân fod ar gael bob amser a dylid ei newid yn ddyddiol.<br>**c.** Rhaid i'r llestri bwyta ac yfed fod o ddyluniad sy'n atal y bwyd a'r diod rhag mynd i bob man, cyhyd â bod hynny'n ymarferol.<br>**d.** Rhaid i'r llestri fod yn hawdd i'w glanhau a'u steryllu, a rhaid eu cadw'n lân. | Dylai'r holl gŵn, yn cynnwys cŵn bach sydd wedi eu dyfnu, gael mynediad i lestri bwydo ar wahân. Rhaid i'r holl gŵn gael diet sy'n bodloni eu gofynion maeth ac sy'n cyfateb i'w hoedran, eu brîd, statws cenhedlu, sgôr cyflwr eu corff a lefel gweithgarwch.<br><br>Dylid ceisio cyngor gan filfeddyg pan nad yw pwysau cŵn bach yn cynyddu, neu eubod yn colli pwysau.<br><br>Cyfeiriwch at Godau Ymarfer Llywodraeth Cymru |
| **3.2 Cyfleusterau Paratoi a Storio Bwyd**<br><br>**a.** Rhaid darparu cyfleusterau addas, sydd wedi'u hadeiladu a'u cynnal mewn ffordd hylan, i storio a pharatoi bwyd i'r cŵn.<br>**b.** Pan fo cigoedd ffres a rhai wedi'u coginio'n cael eu storio, rhaid darparu oergelloedd. Rhaid osgoi halogi'r bwyd.<br>**c.** Rhaid i sinc gyda thap dŵr poeth ac oer fod ar gael i olchi celfi cegin a dysglau bwyta ac yfed.<br>**d.** Rhaid darparu cynhwysyddion i storio bwyd a rhaid iddynt fod o wneuthuriad da a'u cadw mewn cyflwr da fel nad yw pryfed a phla yn gallu mynd iddynt. | |

## 4. YMDDYGIAD ARFEROL

*Rhaid i'r cŵn fod yn gallu arddangos patrymau ymddygiad arferol bob amser. Rhaid iddynt gael y cyfle i fwynhau ymarfer corff a chael goruchwyliaeth ddigonol. O'r herwydd rhaid i berchnogion gydymffurfio â'r cymarebau staff a gymeradwywyd. Bydd cŵn yn cael eu cadw mewn cwt wedi ei osod allan gyda chyfleusterau i wella a chyfoethogi eu hamgylchedd a galluogi i gŵn bach gymdeithasoli.*

| Amod y Drwydded | Canllaw |
|---|---|
| **4.1 Ymarfer Corff**<br><br>**a.** Rhaid i'r holl gŵn gael digon o ymarfer corff i'w anghenion unigol i edrych ar ôl eu llesiant corfforol a meddyliol.<br>**b.** Ble fo gan gŵn ardal ymarfer benodol neu fynediad rhydd i ardal ymarfer, rhaid darparu rhaglen ymarfer ysgrifenedig a'i chymeradwyo gan yr awdurdod lleol. | Dylai fod gan gŵn fynediad dyddiol at ardal ymarfer o faint rhesymol. Dylid darparu amddiffyniad digonol rhag tywydd gwael ar ffurf ardal gysgodol. Dylid cymryd gofal i wylio a sicrhau bod y grŵp o gŵn yn gweithio fel uned gymdeithasol.<br><br>Dylid ymgymryd ag amser ychwanegol, sy'n o leiaf dri chyfnod o hanner awr y dydd, i'r cŵn gael cysylltiad a chymysgu gyda phobl (i gynnwys chwarae rhyngweithiol gyda theganau) i sicrhau eu bod yn cael ymarfer corfforol a meddyliol. |
| **4.2 Goruchwylio**<br><br>**a.** Os yw deiliad y Drwydded yn absennol am beth amser yna rhaid i berson addas a chymwys sy'n 16 oed o leiaf, oruchwylio'r eiddo.<br>**b.** Rhaid i'r rhai sy'n goruchwylio fod â gwybodaeth drylwyr a manwl o'r amodau trwyddedu gan gydymffurfio gyda phob un, bob amser.<br>**c.** Rhaid i'r trwyddedai fyw yn agos at yr eiddo trwyddedig fel bod modd mynd yno yn brydlon bob amser.<br>**d.** Rhaid ymweld â'r cŵn ar adegau rheolaidd, fel bo'r angen i sicrhau bod eu hiechyd, diogelwch a'u lles yn iawn gan atal unrhyw ddioddef diangen.<br>**e.** Rhaid i'r adegau rheolaidd fod yn lleiafswm o deirgwaith y dydd. | Mae angen i unrhyw un sy'n goruchwylio'r cŵn fod â gwybodaeth ddigonol a phrofiad i fedru trin y cŵn yn gywir ac yn ddiogel. Rhaid iddynt hefyd fedru adnabod os yw ymddygiad ci yn awgrymu fod yna broblem gan weithredu yn briodol.<br><br>Dylai fod gan bob bridiwr a staff fynediad i a bod yn gyfarwydd gyda'r Cod Ymarfer er Lles Cŵn a bob deddfwriaeth berthnasol arall.<br><br>Dylai fod ganddynt wybodaeth ymarferol dda am fridio cŵn a bod yn ymwybodol o ymarfer da a nodweddion y brîd/bridiau sydd yn y sefydliad. |

| | |
|---|---|
| **4.3 Cyfradd staff / nifer stoc**<br><br>**a.** Nodir nifer uchaf y cŵn gaiff eu lletya ar unrhyw adeg ar y drwydded ac ni ddylid lletya mwy na hynny.<br>**b.** Nid fydd cyfanswm y cŵn ar y drwydded ar unrhyw gyfrif yn fwy na 30 ar gyfer bob gweithiwr LLAWN amser a 15 i bob gweithiwr RHAN amser a gyflogir yn yr eiddo.<br>**c.** Bydd nifer y cŵn yn cael ei gostwng os oes methiant i gydymffurfio gyda gofynion eraill y drwydded. Diffinnir 'ci' fel unrhyw un o deulu'r ci sydd dros chwe mis oed gan gynnwys cŵn a geist magu, cŵn wedi ymddeol a chŵn ifanc. | Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried y sefydliad yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys y llety a'r cyfleusterau ymarfer corff sydd ar gael, rhaglenni iechyd a lles a lefel cydymffurfio parhaus â'r drwydded.<br><br>Lle nad yw'r awdurdodau trwyddedu'n fodlon gyda gallu deiliad arfaethedig y drwydded neu ddeiliad cyfredol y drwydded, dylent ostwng nifer y cŵn caiff y sefydliad eu cadw.<br><br>Gallai tystiolaeth o hyn fod ar ffurf methiant i gwrdd ag amodau'r drwydded e.e. cŵn ddim yn cael ymarfer corff a glanweithdra gwael.<br><br>Dylai unrhyw weithiwr (rhan neu lawn amser) fod wedi ei hyfforddi yn addas ac yn fedrus. Gellir dod o hyd i fanylion am hyfforddiant addas ar wefan y 'Pet Care Association.'<br><br>Gweithiwr amser llawn yw rhywun sy'n gweithio o leiaf 30 awr yr wythnos ac mae gweithiwr rhan amser yn gweithio o leiaf 15 awr. |
| **4.4 Gosodiad y cenel**<br><br>**a.** Rhaid i awyrgylch y cenel gael ei ddylunio i sicrhau diogelwch, llesiant a lles y deiliaid. | Dylai bob ci gael ei letya yng nghwmni eraill oni bai oherwydd diogelwch a llesiant unigolyn bod angen ei gadw wedi ei ynysu.<br><br>Dylai bob cenel ddarparu rhan sydd wedi ei godi ble gall cŵn fwynhau golygfa uwch o'r hyn sydd o'u hamgylch. Dylai dyluniad y cenel alluogi'r holl gŵn sydd yno i ddewis os ydynt am weld ci arall mewn cenel cyfagos neu gyferbyn.<br><br>Dylai'r dyluniad fod mor gymhleth a mor ysgogol a'r gofod a ganiateir ac mae'r angen am lanweithdra yn ei ganiatáu. Y lleiafswm safon i osodiad cwt ci yw darpariaeth ardal wedi'i chodi sy'n ddigon mawr a chryf i roi lle cyfforddus i'r cŵn sydd yn y cwt i orwedd. |

| | |
|---|---|
| | Dylai bob ci gael ei letya mewn grwpiau (lleiafswm dau gi) oni bai oherwydd diogelwch a llesiant unigolyn bod angen ei gadw wedi ei ynysu. |

## 5. IECHYD A LLES

*Rhaid cymryd rhagofalon digonol er mwyn atal a rheoli afiechydon heintus ac ymledol rhag lledaenu. Mae'n hanfodol cofrestru gyda milfeddyg. Mae gofyniad i gael cynlluniau iechyd priodol, i ddefnyddio meddyginiaethau trwyddedig fel bo angen ac i hybu statws iechyd y cŵn drwy eu bridio yn briodol. Mae cyfleusterau ynysu, offer cymorth cyntaf ac amddiffyn rhag tân yn angenrheidiol.*

| **Amod y Drwydded** | **Canllaw** |
|---|---|
| **5.1 Cofrestru gyda Milfeddyg**<br><br>**a.** Rhaid i bob sefydliad bridio gofrestru gyda phractis milfeddyg a sicrhau bod manylion llawn ar gael i'r Awdurdod Trwyddedu. | Gellir cael cyfeiriadau milfeddygfeydd o wefan Coleg Brenhinol y Milfeddygon: **http://www.rcvs.org.uk/FindAVet** |
| **5.2 Meddyginiaethau**<br><br>**a.** Rhaid i'r holl feddyginiaethau a ddefnyddir fod â Awdurdodiad Marchnata cyfredol i werthu yn y DU.<br>**b.** Rhaid i bob meddyginiaeth a ddefnyddir fod o fewn y dyddiad dod i ben, gan ei ddefnyddio yn unol â'r cyfarwyddiadau.<br>**c.** Rhaid eu storio mewn cwpwrdd diogel, addas.<br>**d.** Rhaid eu diogelu rhag goleuadau ac eithafion tymheredd. | Meddyginaieth ar bresgripsiwn yn unig - Dylid ond defnyddio meddyginiaethau milfeddygol (POM-V) i anifeiliaid penodol y mae'r persgripsiwn ar eu cyfer. Rhaid dilyn cyfarwyddiadau penodol y milfeddyg.<br><br>Meddyginiaeth Anifeiliaid nad yw'n fwyd - Milfeddyg, Fferyllydd a Personau Cymwys Addas (NFAM-VPS) a meddyginiaeth Milfeddygol Awdurdodwyd - Rhestr Werthiant Gyffredinol (AVM-GSL) rhaid defnyddio meddyginiaethau yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.<br><br>Caniateir meddyginiaeth homeopathig gyda chaniatâd y milfeddyg. |

| | |
|---|---|
| **5.3 Afiechydon Heintus/Ymledol yn yr eiddo**<br><br>**a.** Rhaid i'r holl gŵn gael eu diogelu yn ddigonol rhag afiechydon heintus ac ymledol a pharasitiaid fel y penderfynwyd gan eich milfeddyg.<br>**b.** Rhaid cadw cofnodion cyfredol i bob ci gan roi manylion pa driniaethau a brechiadau maent wedi eu derbyn. | Rhaid cymryd rhagofalon digonol er mwyn atal a rheoli afiechydon heintus ac ymledol a pharasitiaid rhag lledaenu ymhlith cŵn, a milheintiau ymysg cŵn, staff ac ymwelwyr.<br><br>Rhaid cadw cofnod o'r holl drefniadau brechu a'r moddion llyngyr a roddwyd. |
| **5.4 Statws Iechyd y Cŵn**<br><br>**a.** Rhaid i bob anifail gael archwiliad corfforol dyddiol i weld os oes unrhyw arwyddion o salwch, anaf neu ofid.<br>**b.** Rhaid i gŵn a geist magu fod yn iach yn gorfforol ac o ran ymddygiad.<br>**c.** Bydd unrhyw stoc magu sydd ym marn yr arolygydd trwyddedu yn dangos unrhyw nodweddion ymddygiadol neu etifeddol diffygiol efallai yn gorfod cael ei wirio yn iach gan filfeddyg y Trwyddedai.<br>**d.** Rhaid gofyn am gyngor milfeddyg yn ddiymdroi pan fo ci yn dangos arwyddion afiechyd, anaf, salwch neu anhwylder ymddygiadol gan gofnodi hyn ar lyfr log y ci a bod hwn ar gael i ddarpar brynwyr. | Fel arfer, nid yw stoc magu sy'n dangos arwyddion o ofn neu orbryder yn gwneud rhieni da.<br><br>Dylai cŵn bach fod yn epil i rieni sy'n iach, cymdeithasol ac sy'n fedrus yn eu hamgylchedd. |
| **5.5 Bridio**<br><br>**a.** Ni ddylid paru geist magu os ydynt yn llai na blwydd oed.<br>**b.** Ni ddylai gast fagu esgor ar fwy na chwe thorllwyth o gŵn bach yn ei hoes.<br>**c.** Ni ddylai geist magu esgor ar fwy na un torllwyth o gŵn bach mewn cyfnod o ddeuddeng mis. | |

| | |
|---|---|
| **5.6 Cyfleusterau Ynysu**<br><br>**a.** Rhaid i gyfleusterau ynysu fod ar gael a rhaid iddynt gydymffurfio â’r amodau trwyddedu eraill ond rhaid iddynt hefyd fod ar wahân yn ffisegol. Rhaid i'r cyfleusterau ynysu hyn fod o leiaf bum metr oddi wrth gytiau cŵn eraill<br>**b.** Rhaid i gyfleusterau digonol fod ar gael i atal afiechydon heintus rhag lledaenu rhwng cŵn a gaiff eu hynysu a chŵn eraill.<br>**c.** Rhaid i fesurau bioddiogelwch effeithiol fod yn eu lle a bod pawb o'r staff yn eu deall. | Dylai cyngor milfeddygol am ynysu cŵn gyda aifechydon heintus posib gael ei ddogfennu a'i ddilyn ar unwaith.<br><br>Dylai bod gweithdrefnau a chyfleusterau yn eu lle i ganiatáu i roi cŵn sydd newydd gyrraedd mewn cwaratîn fel a ymgynghorwyd â milfeddyg. Dylid ceisio cyngor gan filfeddyg pan fo cŵn sydd newydd gyrraedd yn dangos unrhyw arwyddion o afiechyd, cyn iddynt gael cymysgu gyda chŵn eraill.<br><br>Mae angen i anifeiliaid sydd wedi eu hynysu gael eu hynysu yn effeithiol a disgwylir tystiolaeth bod milfeddyg wedi bod yn rhan o hyn. |
| **5.7 Cit cymorth cyntaf**<br><br>**a.** Rhaid i focs cymorth cyntaf digonol ar gyfer cŵn fod wrth law ac ar gael ar y safle. | Dylai cit cymorth cyntaf gynnwys yr isod:<br>Detholiad o wahanol ddresinau<br>• Gorchudd briw nad yw'n adlynol<br>• Rhwymynnau cynnal<br>• Rhwymynnau gorchuddio<br>• Gwlân cotwm<br>• Siswrn<br>• Gefel fach<br>• Tortsh<br>• Mwsel/i o faint addas<br><br>Rhif cyswllt Milfeddyg ynghyd â manylion gwasanaeth y tu allan i oriau arferol.<br><br>Bydd meddyginiaethau yn cael eu cadw mewn cwpwrdd moddion a byddant yn cynnwys: Eli briwiau a Hydoddiant Diheintio. |

| | |
|---|---|
| **5.8 Diogelu rhag tân**<br><br>**a.** Rhaid cael cynllun argyfwng tân a gwacáu yn ei le, y mae staff yn ymwybodol ohono.<br>**b.** Rhaid i hwn gael ei osod mewn lle y gall staff ei weld.<br>**c.** Rhaid cael dulliau addas o hysbysu pawb os oes tân neu unrhyw argyfwng arall.<br>**d.** Rhaid cynnal offer ymladd tân a chanfyddwyr yn briodol a rhaid gwasanaethu diffoddyddion tân neu gael rhai newydd yn ôl y galw.<br>**e.** Rhaid cynnal gosodiadau a theclynnau trydanol mewn cyflwr diogel.<br>**f.** Dylid cael system i dorri'r gylched gerrynt weddilliol ymhob bloc o gytiau cŵn.<br>**g.** Ni ddylid gosod offer gwresogi mewn lleoliad neu mewn modd ble y gallant beri risg tân neu berygl i gŵn.<br>**h.** Dylid cymryd rhagofalon er mwyn atal unrhyw ddeunydd a allai beri risg tân rhag cronni. | Dylai'r weithdrefn hon gynnwys cyfarwyddiadau sy'n ymdrin â lle dylid mynd â'r cŵn.<br><br>Gweler Atodlen B sy'n atodol i weld manylion i gynorthwyo gyda chydymffurfio â'r rheoliadau. |
| **5.9 Diogelwch Offer Trydanol**<br><br>**a.** Rhaid i chi sicrhau fod yr holl systemau trydanol wedi'u hadeiladu a'u cynnal a'u cadw'n ddigonol er mwyn atal peryglon, cyhyd â bod hyn yn rhesymol ymarferol, yn unol â Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989. | Gweler Atodlen C sy'n atodol i weld manylion i gynorthwyo gyda chydymffurfio â'r rheoliadau. |

## 6. CADW COFNODION

*Rhaid cadw cofnodion manwl a chyfredol yn yr eiddo. Rhaid iddynt fod ar gael i'r Arolygwyr Awdurdodedig.*

| Amod y Drwydded | Canllaw |
|---|---|
| **6.1 Adnabod Cŵn**<br>**a.** Rhaid i'r trwyddedai gadw rhestr o'r holl gŵn/geist magu gyda manylion am enw, brîd a rhif microsglodyn yr anifail.<br>**b.** Rhaid rhoi microsglodyn ar eist a chŵn magu gan berson cymwys a chofnodi hyn ar fas data cenedlaethol cydnabyddedig.<br>**c.** Rhaid llenwi llyfr log a ddarparwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu a'i gadw i eist a chŵn magu. Y microsglodyn yw'r cysylltiad rhwng y ci a'r llyfr log.<br><u>Atodlen 1 - Llyfr Log Geist Magu</u><br>**d.** Rhaid cadw'r llyfr log yma, gan gofnodi manylion yn cynnwys rhif y microsglodyn, enw, dyddiad geni, brîd, rhif Cofrestru'r Kennel Club, cyfeiriad ble y'i cedwir a chofnod statws iechyd.<br>Yn ychwanegol, rhaid i'r llyfr log i eist magu gynnwys:<br>• canlyniadau unrhyw gynllun iechyd Cymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA) / Kennel Club*;<br>• canlyniadau unrhyw brofion sgrinio DNA a ddilyswyd sy'n briodol i'r brîd*;<br>• manylion pob torllwyth (manylion cychwynnol i'w cofnodi wedi geni) fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Bridio Cŵn (Cofnodion Trwyddedu) 1999* sydd hefyd yn cynnwys, dyddiad paru a manylion y tad, rhyw y cŵn bach, dyddiad geni, pwysau, disgrifiad a chyfanswm y torllwyth.<br>*ar gael gan y Kennel Club<br><u>Atodlen 2 - Llyfr Log Cŵn Magu</u><br>**e.** Rhaid cadw'r llyfr log yma, gan gofnodi manylion yn cynnwys rhif y microsglodyn, enw, dyddiad geni, brîd, rhif Cofrestru'r Kennel Club, cyfeiriad ble y'i cedwir a'r cofnod statws iechyd.<br>Yn ychwanegol, rhaid i'r llyfr log i gŵn magu gynnwys: | Cyfeiriwch at Atodlen 1 i weld enghraifft o'r Llyfr Log Gast Fagu.<br><br>Cyfeiriwch at Atodlen 2 i weld enghraifft o'r Llyfr Log Ci Magu. |

| | |
|---|---|
| • canlyniadau unrhyw gynllun iechyd Cymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA) / Kennel Club;<br>• manylion paru; a<br>• manylion pob gast a gymharwyd.<br>**f.** Ar ôl i'r cŵn adael yr eiddo trwyddedig rhaid cadw’r cofnodion am o leiaf 24 mis a rhaid iddynt fod ar gael ar gais swyddogion awdurdodedig. | |
| 6.2 **Cŵn Bach**<br><br>**a.** Ni ddylid gwerthu unrhyw gi bach cyn ei fod yn 56 diwrnod oed.<br>**b.** Rhaid i bob ci bach gael ei adnabod drwy ficrosglodyn cyn cael ei werthu neu gael cartref gan gyfeirio'r manylion i'r ast fagu.<br>**c.** Rhaid i fanylion y microsglodyn gael ei gofrestru ar fas data cydnabyddedig.<br>**d.** Rhaid i'r microsglodyn gael ei gofrestru i'r bridiwr cyn i'r ci bach symud o'r eiddo.<br>**e.** Bydd cŵn bach yr ystyrir sy'n rhy fach i gael microsglodyn ond yn cael eu heithrio gan lythyr gan filfeddyg.<br><br>**<u>Atodlen 3 - Cerdyn Adnabod Ci Bach</u>**<br><br>**f.** Rhaid llenwi cerdyn adnabod ci bach i bob ci bach a fagwyd gan roi copi i'r prynwr ar adeg y gwerthiant.<br>**g.** Rhaid i'r bridiwr gadw'r copi gwreiddiol.<br><br>**h.** Dylai'r cofnodion hefyd ddangos:<br><br>• manylion y gwerthiant, sef dyddiad y gwerthiant;<br>• enw a chyfeiriad y sawl a gyflenwyd;<br>• rhif y microsglodyn.<br><br>Rhaid cofnodi gwerthiant cŵn bach yn y llyfr log Geist Magu | Mae cerdyn adnabod ci bach yn cynnwys y manylion isod:<br>• Enw'r bridiwr a chyfeiriad/manylion cyswllt<br>• Dyddiad geni a dyddiad gwerthiant<br>• Rhif microsglodyn y ci bach (os yn berthnasol)<br>• Enw a rhif microsglodyn y ddau riant (i gynnwys rhif cofrestru'r K.C. os yn gymwys)<br>• Manylion brechu<br>• Manylion moddion llyngyr<br>• Canllaw ar ail-gofrestru microsglodyn i berchennog newydd<br><br>D.S. rhaid i bob ci bach fod â'u cardiau unigol gyda hwy drwy bob cam o'r daith i'w cartref parhaol terfynol.<br><br>Dylid darparu prynwyr cŵn bach gyda 'Pecyn Ci Bach', dylai hwn gynnwys:- Cyfran y bwyd a fwydir ar hyn o bryd, manylion yswiriant (os yw wedi'i ddarparu), unrhyw gyngor/gwybodaeth benodol i'r brîd a chyfeiriad at y Cod Ymarfer Lles Cŵn (Cyhoeddiad y Llywodraeth). |

| | |
|---|---|
| **6.3 Gwerthu Geist a Chŵn Magu**<br><br>**a.** Pan fyddant yn cael eu gwerthu ar gyfer bridio pellach, rhaid i eist magu fod a'u llyfr log gyda hwy sy'n cynnwys eu hanes magu yn llawn.<br>**b.** Rhaid i gŵn magu fod a'u llyfr log gyda hwy pan fyddant yn cael eu gwerthu ar gyfer bridio pellach. | Rhaid i lyfrau log fod gyda geist magu pan fyddant yn cael eu gwerthu i sefydliadau bridio eraill er sicrhau nad yw nifer y torllwythi a gynhyrchwyd yn fwy na'r uchafswm y gall gast eu hesgor. Ar hyn o bryd yr uchafswm yw chwe torllwyth gyda dim llai na blwyddyn rhyngddynt. |
| **6.4 Cludo Cŵn**<br><br>**a.** Pan fydd cŵn magu, geist magu a chŵn bach yn cael eu cludo, rhaid i drwyddedai sicrhau bod yr holl gamau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau fod y cŵn wedi eu darparu gyda bwyd a diod priodol, deunydd gorwedd, ac ymarfer digonol.<br>**b.** Rhaid cydymffurfio yn llawn â deddfwriaeth bresennol Lles Anifeiliaid wrth gael eu Cludo. | Mae'r ddeddfwriaeth yn diffinio'r gofyniadau i sichrau 'Lles Anifeiliaid wrth gael eu Cludo'. Gallwch ofyn i'ch arolygydd trwyddedu am fanylion y rheoliadau cyfredol. Mae’r enghreifftiau yn cynnwys: Cawell/cewyll cŵn sydd wedi'u gosod yn ddiogel ac wedi'u hawyru'n addas. Yn ogystal â'r gofyniad i gael awdurdodiad cludo. |

## 7. DEDDF LLES ANIFEILIAID 2006

*Mae Adran 9 y Ddeddf uchod yn rhoi dyletswydd gofal ar berson sy'n gyfrifol am anifail. Datgan y Ddeddf fod person yn troseddu os nad yw'n cymryd camau rhesymol i ddarparu ar gyfer anghenion yr anifail hwnnw. Er mwyn i chi gydymffurfio gyda'r dyletswyddau hyn, mae'r Cyngor wedi rhoi manylion rhai gofynion a chanllawiau penodol y mae'n rhaid i chi eu dilyn.*

*Pan gyfyd posibilrwydd fod Dyletswydd Gofal o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 wedi'i thorri, gall y Cyngor, yn ôl ei ddoethineb, gyflwyno Hysbysiad Gwella i ddatrys y broblem.*

| **Amod y Drwydded** | **Canllaw** |
|---|---|
| **7.1 Cyfleusterau i Gŵn Bach**<br><br>**a.** Rhaid darparu ardal sy'n addas i bob torllwyth gymdeithasoli. | Os ydynt mewn cytiau/siediau neu mathau eraill o adeiladau, dylid gosod ardal benodol o'r neilltu i efelychu amgylchedd y cartref. |

| | |
|---|---|
| **7.2 Arddangos Patrymau Ymddygiad Arferol**<br><br>**a.** Rhaid i bob ci yn y sefydliad gael cyfle i gymysgu a chael ei ysgogi'n ddyddiol i ddangos ymddygiad arferol.<br>**b.** Rhaid darparu tystiolaeth o'r gwelliannau a'r cyfoethogi i arolygydd yr awdurdod lleol. | Dylai amgylchedd allanol, os yw'n cael ei ddarparu, fod mor gymhleth ag y mae diogelwch a glanweithdra yn caniatáu. Ble fo'n bosib dylid ail-symud eitemau chwarae yn rheolaidd a'u newid rhwng mannau chwarae i uchafu difyrwch ac i ysgogi.<br><br>Enghreifftiau o gyfoethogi amgylcheddol yw: ymarfer, chwarae priodol a digon o gysylltiad gyda phobl (pincio, hyfforddi neu chwarae) a gweithgareddau canfod bwyd e.e. bwydwyr pos neu ymarferion chwilota. |
| **7.3 Cymdeithasoli Cŵn Bach**<br><br>**a.** Rhaid i bob ci bach gael ei gymdeithasoli cyn ei werthu neu gael cartref a rhaid cytuno a thrafod ar y ffordd o weithredu hyn gyda arolygydd yr awdurdod lleol. | Dylai cŵn bach fod yn epil i rieni sy'n iach, cymdeithasol ac sy'n gymwys yn eu hamgylchedd.<br>Dylai cynllun cymdeithasoli wedi ei gynllunio ymysg pethau eraill gynnwys:<br><br>• gafael yn ofalus ymhob ci bach,<br>• cyflwyno'r sŵn lefel isel o 14 diwrnod ymlaen;<br>• o 21 diwrnod dylid cyflwyno'r anifail yn ddyddiol i amrywiaeth o gyswllt gyda phobl, chwarae gyda theganau addas gan chwarae i ffwrdd oddi wrth y fam. Ble fo bioddiogelwch yn caniatáu, dylai cŵn bach o dorllwythi eraill gymysgu mewn amgylchedd addas. Dylid bod yn ofalus pan fo cŵn bach yn cael eu symud gan sicrhau wrth afael ynddynt nad yw hyn yn poeni'r fam.<br><br>Pan fyddwch yn defnyddio unrhyw hyfforddiant dylai fod ar sail gwobrwyo. Mae defnyddio coleri sioc drydanol wedi eu gwahardd yng Nghymru. |

| | |
|---|---|
| **7.4 Magu Cyfrifol**<br><br>**a.** Ni ddylid magu o unrhyw stoc magu sy'n dangos nodweddion ymddygiadol neu etifeddol diffygiol.<br>**b.** Wrth fagu croesfridiau yn fwriadol rhaid i'r bridwyr roi sylw dyladwy i addasrwydd y bridiau er mwyn esgor yn hawdd ac i gynhyrchu cŵn bach iach. | Dylai'r Trwyddedai fod yn gyfarwydd gyda'r profion sgrinio iechyd ar gyfer y bridiau a ddewiswyd, mewn ymgynghoriad gyda'u milfeddyg.<br><br>Diffinnir croesfridiau fel epil unrhyw ddau neu fwy o fathau cydnabyddedig o gŵn.<br><br>Dylid ystyried yn ofalus cyn bridio anifeiliaid sy'n perthyn yn agos.<br><br>Enghreifftiau o fridio agos yw paru rhwng brawd a chwaer, tad a merch, mam a mab, taid a ŵyr/wyres neu hanner brawd neu chwaer. |
| **7.5 Strategaeth ymddeol i eist a chŵn magu**<br><br>**a.** Bydd pob gast a chi magu a gedwir ar yr eiddo Trwyddedig yn dal i gael eu cynnwys ar y drwydded.<br>**b.** Rhaid i fridwyr gael cynllun i ddelio gyda chŵn sydd wedi ymddeol. | Dylai bridwyr gynllunio ar gyfer ymddeoliad eu cŵn magu. Os yw ymddeol yn golygu ail-gartrefu i gartref domestig rhaid i'r cŵn fod yn agored yn ystod eu bywyd gwaith, i raglen ysgogi a ddyluniwyd iddynt gymdeithasoli gyda phobl fel eu bod yn fedrus mewn amgylchedd domestig. |

## 8. GOFYNION ERAILL

*Dylai Trwyddedai a Staff fod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth berthnasol gyfredol a'r canllawiau sy'n effeithio ar les staff a chŵn yn ogystal â sicrhau eu bod yn cydymffurfio yn llawn.*

| Amod y Drwydded | Canllaw |
|---|---|
| **8.1 Deddfwriaeth Gyfredol Berthnasol Arall a Chodau Ymarfer**<br><br>**a.** Rhaid i ddalwyr trwydded a staff hefyd fod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth Lles Anifeiliaid a Bridio Cŵn cyfredol i'w galluogi i gydymffurfio yn llawn gyda'r amodau. | Rhestr o'r ddeddfwriaeth berthnasol gyfredol –<br><br>♦ Rheoliadau Tocio Cynffonnau Cŵn Gwaith (Cymru) 2007 (Os 2007/1028 (w.95)).<br>♦ Deddf Cŵn Peryglus 1991 (fel y newidwyd)<br>♦ Deddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999<br>♦ Deddf Anifeiliaid Anwes 1951<br>♦ Deddf Lles Anifeiliaid 2006<br>♦ Côd Ymarfer Lles Cŵn - Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>♦ Deddf Bridio Cŵn 1973<br>♦ Gorchymyn Rheoli Cŵn 1992<br>♦ Rheoliadau Bridio Cŵn (Cofnodion Trwyddedu) 1999<br>♦ Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Coleri Electronig) (Cymru) 2010 Rhif 943 (W97)<br>♦ Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludiant) (Cymru) 2007 |

## MATERION ERAILL SY'N YMWNEUD Â RHEDEG SEFYDLIAD TRWYDDEDIG.

### A. Y DREFN APELIADAU

**Deddf Anifeiliaid Anwes 1951 - Adran 1 (4)**

Caiff unrhyw berson sy'n anfodlon gyda phenderfyniad awdurdod lleol i wrthod rhoi trwydded o'r fath, neu gydag unrhyw amod y cynigir rhoi trwydded o'r fath yn ddarostyngedig iddo, apelio i Lys Ynadon; ac fe all y llys mewn apêl o'r fath roi y fath gyfarwyddyd ynghylch cyflwyno trwydded neu, yn ddibynol ar yr achos, ynghylch yr amodau y rhoddir trwydded yn ddarostyngedig iddynt, fel y gwêl yn dda.

### B. CANLLAW RHAGOFALON TÂN

Rhoddir y wybodaeth a ganlyn i ddeiliaid y drwydded, i'w cynorthwyo i gydymffurfio â gofynion y rhagofalon tân y manylir arnynt yn amodau trwydded y Cyngor, sy'n gofyn bod camau priodol yn cael eu cymryd er gwarchod anifeiliad pe digwydd tân neu argyfwng arall.

Anelir y canllaw at sicrhau fod y modd o ddianc a'r rhagofalon tân cysylltiedig yn ddigonol i ddeiliaid sy'n bobl.
Dylid cofio y gall gofynion diogelwch tân i bobl ddod o dan ddeddfwriaeth wahanol.

Dylid rhoi ystyriaeth i'r hyn a ganlyn:

1. **Hygyrchedd i gyfarpar ymladd tân a chyflenwad dŵr** - Dylai bod mynediad da i offer ymladd tân (lled o 3.7m o leiaf) a phob hydrant a chyflenwadau dŵr gwastraff arall a dylid darparu lleiniau caled.  Dylid arddangos bwrdd enw'r eiddo yn glir ger mynedfa'r ffordd agosaf.

2. **Dulliau Dianc** - Dylid dylunio llwybrau dianc i anifeiliaid fel eu bod yn rhoi ffordd syth allan o adeiladau, gyda chyn lleied o gymorth pobl ag y bo modd. Dylid trefnu drysau'r corlannau fel bod modd i'r anifeiliaid adael yn gyflym a dylid osgoi troeon llym, rhwystrau a rampiau ar hyd y llwybrau dianc, cyhyd â bo modd.
   a) Dylai'r allanfeydd yn yr holl eiddo fod yn ddigon llydan ac uchel i allu mynd at yr anifeiliaid bob amser.
   b) Dylid gallu agor yr allanfeydd yn hawdd o'r tu mewn heb ddefnyddio allwedd.
   c) Os yw'n angenrheidiol, dylid paratoi ar gyfer galw deiliad yr allweddi ar fyrder.

Mewn adeiladau sy'n fwy na 18 metr o hyd, neu lle mae nifer fawr o anifeiliaid yn cael eu cartrefu, dylid darparu dwy allanfa o leiaf a dylent fod mor bell oddi wrth ei gilydd â bo modd. Dylid cyfyngu pellter teithio i 45 metr.

3. **Arwyddion Dim Ysmygu** - Dylid arddangos rhybuddion dim ysmygu yn yr ardal cadw gwair a gwellt a, ble bo'n ymarferol, dylid cymryd gofal rhag i bobl diawdurdod, yn enwedig plant, fynd i mewn.

4. **Gosodiadau Trydanol** - Dylid glanhau gosodiadau trydanol gan gynnwys lampau yn gyson rhag i lwch hel. Dylid rhoi offer trydanol, gwresogwyr ac ati, yn eu lle a'u sadio fel eu bod bellter diogel oddi wrth unrhyw ddeunydd gorwedd fflamadwy a allai fod wedi cronni.

5. **Offer Ymladd Tân**

a. **Diffoddyddion Tân Cludadwy -** Argymhellir yr hyn a ganlyn fel isafswm:

- Mae adeiladau ag arwynebedd o ddim mwy na 200m2 angen o leiaf 2x9 o ddiffoddyddion tân dŵr, ar gyfer adeiladau ag arwynebedd o dros 200msg, rhaid darparu diffoddydd tân ychwanegol ar gyfer pob 200m2 neu ran o hynny.
- Rhaid i ddiffoddyddion tân gwrdd ag anghenion BS EN 3 a rhaid eu gosod a'u cynnal yn unol â'r argymhellion a roddir yn BS 5306.
- Yn dibynnu ar ganlyniad eich asesiad risg tân, fe all fod yn bosib gostwng hyn i un diffoddydd mewn eiddo bychan iawn gyda gofod llawr o lai na 90m2.
- Ni ddylid defnyddio diffoddyddion tân sy'n cynhyrchu sŵn mawr wrth weithio yn ymyl anifeiliaid, e.e. CO2, neu gymylau mawr o bowdwr sych.

b. **Olwynion Pibell** - Gellir darparu olwyn pibell yn hytrach na diffoddyddion tân cludadwy. Dylai fod un bibell o leiaf ar gyfer pob arwynebedd o 800m2 neu ran o hynny. Dylai gydymffurfio â BS 5306: Rhan 1. Gall pibellau golchi fod yn dderbyniol cyhyd â bod ganddynt lif cyson o ddŵr sy'n gallu cynhyrchu ffrwd o ddŵr sy'n teithio o leiaf bum medr. Ni ddylai olwyn pibell fod yn fwy na 45m o hyd a dylent gael eu gosod fel gellir mynd â'r chwistrell o fewn 6m o bob rhan o'r eiddo gwarchodedig.

6. **Rhybuddion Tân** - Dylai holl staff y sefydliad fod yn gyfarwydd â beth i'w wneud pe digwydd tân. Dylid arddangos rhybuddion ysgrifenedig, clir ac amlwg sy'n dangos pa gamau i'w cymryd pe byddai tân ynghyd â lleoliad y ffôn agosaf.

**Gall y rhybudd gynnwys**:

"Wrth ganfod tân, sicrhewch fod yr adeilad dan sylw yn cael ei wagio.
Galwch y Frigâd Dân {mae'r ffôn agosaf yn...}. Ymdriniwch â'r tân trwy ddefnyddio'r offer ymladd tân a ddarperir, os yw'n ddiogel gwneud hynny ac ati"

7. **Cyfeirnod Map A/O -** Dylai cyfeirnod Arolwg Ordnans fod ar gael i'r eiddo a dylid ei arddangos gyda'r Rhybudd Tân a ddarperir.

**Mae'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol bod y rhagofalon tân angenrheidiol yn cael eu gosod i amddiffyn personau perthnasol os bydd tân yn yr eiddo, ac yng nghyffiniau'r holl eiddo, sy'n destun y ddeddfwriaeth.**

'Y person cyfrifol' sy'n gyfrifol am gydymffurfio gyda'r gorchymyn. Mewn gweithle, y cyflogwr ac unrhyw berson arall a allai fod yn rheoli unrhyw ran o'r eiddo yw'r person hwn, e.e. y deiliad neu'r perchennog. Ymhob eiddo arall, y person(au) sy'n rheoli'r eiddo fydd yn gyfrifol.

**Rhaid i berson cyfrifol**:

Gynnal Asesiad Risg Tân, a rhaid cofnodi canfyddiadau pwysig os cyflogir mwy na phum person, os yw'r eiddo'n drwyddedig neu os oes hysbysiad addasiadau mewn grym.

I'ch cynorthwyo ymhellach, mae canllaw ‘Fire Safety Guide to Animal Premises and Stables’ (ISBN: 978 1 85112 884 6) ar gael gan y Stationery Office neu trwy wefan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (www.communities.gov.uk).

## C. <u>IECHYD A DIOGELWCH</u>

Mae cyfraith iechyd a diogelwch yn berthnasol i bob busnes, waeth pa mor fach ydyw. Fel cyflogwr neu berson hunangyflogedig, chi sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn eich busnes. Mae angen i chi gymryd y rhagofalon cywir i leihau'r risgiau o beryglon yn y gweithle a darparu amgylchedd gwaith diogel.

Edrychwch ar y canllaw o'r enw "Health and Safety made simple”. Mae'r canllaw hwn yn gwneud pethau'n haws i chi drwy roi'r wybodaeth sylfaenol ar yr hyn yr ydych angen ei wneud mewn un lle. Bydd yn eich cynorthwyo i ddechrau rheoli iechyd a diogelwch yn eich busnes.

Gyda rhai gweithgareddau gwaith, fe allwch fod angen gwneud pethau ychwanegol i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Mae canllawiau pellach ar bynciau penodol, megis rheoli asbestos, atal afiechyd o ganlyniad i ddod i gyswllt ag anifeiliaid, ac ati, ac asesiadau modelu risg ar gael ar-lein yn www.hse.gov.uk Gallwch hefyd gysylltu â thîm iechyd a diogelwch Cyngor Gwynedd ar 01766 771000 a gofyn am y swyddog sydd ar ddyletswydd neu e-bostiwch ni ar BwydaIechyd&Diogelwch@gwynedd.llyw.cymru
Gellir lawrlwytho'r llyfryn "Health and Safety made simple" trwy ddilyn y ddolen hon:
http://www.hse.gov.uk/pubns/indg